**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan yr Adran Drafnidiaeth a Chysylltedd Digidol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn cynnig barn deg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023.

**Lee Waters, AS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**11 Gorffennaf 2023**

## RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

### 1. Disgrifiad

1.1. Gwneir Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023") gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 64(1), (2) a (3), adran 65(1) ac adran 85(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("RTRA 1984").

1.2. Diben yr offeryn statudol hwn yw diwygio Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 ("Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2016") mewn perthynas â Cymru. Mae Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2016 yn nodi'r dyluniad gorfodol ar gyfer arwyddion traffig ym Mhrydain Fawr, yr hyn maent yn ei olygu, sut maent yn cael eu gosod a sut maent yn cael eu goleuo. Mae'r diwygiadau hyn yn ganlyniadol ac yn atodol i Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022, a fydd yn gostwng y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 30mya i 20mya pan ddaw i rym ar 17 Medi 2023.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae Adran 64 o RTRA 1984 yn darparu bod rhaid i ddyluniad arwydd traffig a osodir ym Mhrydain Fawr gael ei bennu drwy reoliadau (Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2016 ar hyn o bryd) wedi'u gwneud gan yr awdurdod perthnasol (oni bai bod yr arwydd yn cael ei awdurdodi'n benodol). Mae adran 65 yn rhoi pŵer i'r awdurdod perthnasol i roi cyfarwyddiadau cyffredinol i awdurdodau traffig ynghylch sut y gosodir arwyddion traffig. Mae cyfarwyddiadau o'r fath i'w harfer drwy offeryn statudol. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod perthnasol mewn perthynas â Chymru ar gyfer swyddogaethau'r awdurdod perthnasol o dan adrannau 64 a 65.

3.2. Mae adran 85(2) o RTRA 1984 yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol i roi cyfarwyddiadau cyffredinol at y diben y cyfeirir ato yn adran 85(1), sef sicrhau y rhoddir digon o arweiniad i yrwyr cerbydau modur ynghylch a oes terfyn cyflymder ar ffordd, a beth yw'r terfyn cyflymder hwnnw. Mae cyfarwyddiadau o'r fath i'w harfer drwy offeryn statudol. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod perthnasol yng Nghymru ar gyfer swyddogaethau'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o dan adran 85.

3.3. O dan adran 134(11) o RTRA 1984, mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 64 yn ddarostyngedig i gael ei ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

3.4. Mae Adran 65(3ZC) o RTRA 1984 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt roi cyfarwyddyd cyffredinol mewn perthynas â gosod arwyddion traffig o dan adran 65(1). O dan adran 85(10), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn iddynt roi cyfarwyddyd cyffredinol o dan adran 85(2). Yn ogystal, mae adran 134(13) yn ei gwneud yn ofynnol i weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 64. O dan adran 134(10), cyn gwneud rheoliadau o dan adran 64, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ymgynghori â sefydliadau cynrychiadol fel sy'n briodol yn eu barn nhw.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Mae Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau a Chyfarwyddiadau 2016 er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad i'r terfyn cyflymder cyffredinol yng Nghymru. Bydd y gostyngiad i'r terfyn cyflymder cyffredinol yn cael effaith ar ba arwyddion sy'n cael eu defnyddio a ble maent yn cael eu gosod ar ffyrdd yng Nghymru. Mae angen gwneud y diwygiadau hyn fel y gall awdurdodau priffyrdd osod arwyddion traffig a marciau ffordd addas sy'n cydymffurfio â'r gofynion sy'n eu galluogi i orfodi'r Gorchymyn 20mya.

4.2. Prif fwriad y Gorchymyn 20mya a Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 yw gwella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol o ganlyniad i wrthdrawiadau traffig yng Nghymru. Mae hefyd yn ceisio annog pobl i newid i ddulliau teithio mwy llesol a gwella'r economi leol a'r amgylchedd yng nghymunedau Cymru. Mae Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 yn effeithio ar bob defnyddiwr ffyrdd yng Nghymru.

4.3. Bydd Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 hefyd yn cefnogi amcanion llawer o strategaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 a'r amcanion a amlinellir mewn deddfwriaeth arall fel Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 5. Crynodeb o'r diwygiadau a wneir gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau 2023

5.1. Mae rhestr o'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau a Chyfarwyddiadau 2016 gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 yn y tabl isod.

| Rheoliad | Arwydd Traffig | Math | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| 3 | Delwedd / arwydd slogan diogelwch ar y ffyrdd | Arwydd newydd | Arwydd diogelwch ar y ffyrdd newydd i'w ddefnyddio yn ogystal â'r arwyddion sy'n rhybuddio ynghylch plant ymhellach ymlaen yn mynd i'r ysgol neu faes chwarae neu oddi yno, neu ynghylch dwmpathau ffordd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Arwydd twmpathau ffordd | Arwydd newydd | Arwydd newydd yn rhybuddio ynghylch ardal tawelu traffig gydag arwydd ar gyfer twmpathau ffordd. |
| 4 | Arwyddion i hysbysu am fynedfa ac allanfa parth 20mya | Cael gwared ar yr arwydd presennol | Arwyddion sy'n rybuddio am fynedfa ac allanfa parth 20mya. Ni fydd angen y rhain mwyach yng Nghymru pan fydd y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yn cael ei ostwng o 30mya i 20mya. Bydd angen cael gwared ar yr arwyddion hyn erbyn 17 Medi 2024. |
| 5 | Arwyddion ynghylch ardaloedd tawelu traffig | Arwydd newydd | Defnyddir arwydd newydd i rybuddio ynghylch diwedd ardal tawelu traffig yn lle'r arwydd sydd ar hyn o bryd yn rhybuddio ynghylch diwedd parth 20mya. |
| 5 | Arwyddion yn rhybuddio bod camera cyflymder ymhellach ymlaen | Arwydd newydd | Arwydd newydd i rybuddio ynghylch camera cyflymder ymhellach ymlaen ac i atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder 20mya. Ni fydd yr arwydd cyfatebol sy'n atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder 30mya yn berthnasol i Gymru mwyach, er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad i'r terfyn cyflymder cyffredinol ar ffyrdd cyfyngedig. Bydd angen cael gwared ar yr arwyddion hyn erbyn 17 Medi 2023. |
| 6 | Arwyddion dros dro | Arwydd newydd | Arwydd dros dro newydd i rybuddio neu nodi bod terfyn cyflymder 20 mya newydd yn cychwyn. Ni fydd yr arwydd cyfatebol sy'n nodi man cychwyn terfyn cyflymder 30mya newydd yn berthnasol i Gymru mwyach, er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad i'r terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig |
| 9 | Arwyddion ategu / marciau ffordd ategu ynghylch terfyn cyflymder | Cael gwared ar arwyddion / marciau ffordd presennol | Bydd arwyddion ategu / marciau ffordd ategu ynghylch terfyn cyflymder 20mya ar ffyrdd yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i derfyn cyflymder uchaf o 20mya, ac sydd â system goleuo cerbytffyrdd, yn cael eu gwahardd erbyn 17 Medi 2024.<br><br>Rhaid cael gwared ar arwyddion ategu 20mya erbyn 17 Medi 2024, a rhaid cael gwared ar farciau ffordd ategu erbyn 17 Medi 2028 |
| 10 | Arwyddion dros dro | Cyfyngiad mewn perthynas | Mae'n cyfyngu ar ddefnyddio'r arwydd newydd a gyflwynir yn rheoliad 6 sy'n rhybuddio neu'n nodi bod terfyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ag arwydd newydd | cyflymder 20mya newydd yn cychwyn. Ni ellir defnyddio’r arwydd ar ffordd sydd â therfyn cyflymder 20mya a osodwyd yn ddiweddar ond yn ystod y cyfnod o 12 mis gan ddechrau â’r diwrnod y daw’r terfyn cyflymder 20mya newydd i rym. |
| 11 | Darpariaethau arbedion / trosiannol | | Pan fydd Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 ar waith, ni fydd angen nifer o arwyddion traffig a marciau ffordd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd mwyach, ac felly ni chaniateir eu defnyddio yng Nghymru. Diben yr darpariaethau a'r arbedion trosiannol hyn yw darparu cyfnod gras ar gyfer rhai arwyddion traffig a marciau ffordd, gan roi rhagor o amser i awdurdodau traffig, ar ôl i Reoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 ddod i rym, i sicrhau bod yr arwyddion traffig a'r marciau ffordd cywir ar waith, a bod arwyddion traffig a marciau ffordd nad oes eu hangen / nad ydynt yn cydymffurfio’n cael eu tynnu. |

## 6. Ymgynghoriad

6.1. Ymgynghori â Rhanddeiliaid

6.1.1. O dan adran 134(10) o RTRA 1984, cyn gwneud rheoliadau o dan un o ddarpariaethau'r Ddeddf (ac eithrio adran 103(1), adrannau 108 i 110, Atodlen 4, Atodlen 8 ac Atodlen 12), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â sefydliadau cynrychiadol fel sy'n briodol yn eu barn nhw.

6.1.2. Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos â rhanddeiliaid rhwng 5 Ionawr 2023 a 16 Mawrth 2023. Gwahoddwyd pob awdurdod traffig (gan gynnwys Adran y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru) a'r holl wasanaethau brys yng Nghymru i ymateb i ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 13 ymateb ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ni chafodd unrhyw faterion ddadleuol eu codi yn ystod yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid. At ei gilydd roedd pawb yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig.

6.1.3. Mae'r dogfennau ymgynghori â chrynodeb o'r ymatebion ar gael yma

6.2. Ymgynghoriadau eraill

6.2.1. O dan adrannau 65(3ZC), 85(10) a 134(10) o RTRA 1984, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn wneud yr

offeryn statudol hwn (gweler adran y Cefndir Deddfwriaethol uchod). Ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar 12 Mehefin 2023, a derbyniwyd llythyr ymateb gan y Gweinidog dros Ffyrdd a Thrafnidiaeth Leol ar 18 Mehefin 2023.

6.2.2. Sefydlwyd grŵp llywio annibynnol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau traffig, cymdeithasau masnach ac Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar y cyd ag unigolion eraill sy'n arbenigo mewn arwyddion traffig ym mis Mawrth 2021. Maent wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd i ddarparu mewnbwn gan randdeiliaid ar y cynigion i ddiwygio Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2016.

## RHAN 2 – DIWEDDARIAD I GOSTAU AM ARWYDDION TRAFFIG A MARCIAU FFORDD SYDD YN YR ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL AR GYFER Y GORCHYMYN FFYRDD CYFYNGEDIG (TERFYN CYFLYMDER 20MYA) (CYMRU) 2022

### 1. Cyflwyniad

1.1. Diben Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw rhoi i Weinidogion Cymru asesiad o gostau a manteision tebygol cydymffurfio ag is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru.

1.2. Cafodd yr asesiad mewn perthynas â'r Gorchymyn 20mya ei gyhoeddi ar y cyd â'r Memorandwm Esboniadol ym mis Mehefin 2022.

1.3. Nid ystyrid bod angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol arall mewn perthynas â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023. Mae Rheoliadau a Chyfarwyddiadau 2023 yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau a Chyfarwyddiadau 2016 sy'n ganlyniadol ac yn ategol i'r Gorchymyn 20mya, ac maent yn ffurfio rhan o'r polisi a aseswyd o dan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Gorchymyn 20mya.

1.4. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn gysylltiedig â'r Gorchymyn 20mya yn cynnwys amcangyfrif o gostau newid arwyddion traffig a marciau ffordd i adlewyrchu'r gostyngiad i'r terfyn cyflymder diofyn o 30mya i 20mya ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru. Mae diweddariad i'r amcangyfrifon cost hynny yn yr adran ganlynol. Nid yw'r diweddariadau hyn yn newid y dadansoddiadau na'r canlyniadau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn 20mya yn sylweddol. Mae manteision gostwng y terfyn cyflymder diofyn ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 30mya i 20mya yn cael eu hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn 20mya.

### 2. Costau Uniongyrchol mewn perthynas â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2023

2.1. Mae'r rhan fwyaf o gostau gostwng y terfyn cyflymder diofyn ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 30mya i 20mya yn gostau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag arwyddion newydd. Llywodraeth Cymru a fydd yn ysgwyddo'r holl gostau hyn bron.

2.2. Mae'r costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r polisi'n ymwneud â chost gosod a chael gwared ar arwyddion traffig a marciau ffordd. Ar adeg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn 20mya, roedd y costau cyfalaf a nodwyd yn ystyried y canlynol:

2.2.1. Amcangyfrifwyd y byddai costau cyfalaf o £24 miliwn ar sail prisiau 2022, ac y byddai'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo yn 2022 a 2023.

2.2.2. Gan addasu ar gyfer tuedd optimistiaeth o 22% yn unol â chanllawiau atodol y Llyfr Gwyrdd[1] ar wariant cyfalaf, amcangyfrifwyd y byddai costau cyfalaf o £29.3 miliwn ar sail prisiau 2022.

2.2.3. Yn olaf, at ddibenion cymharu costau yn erbyn manteision, cafodd y costau eu gostwng i brisiau 2022, gan gynnwys cyfradd ddisgownt safonol y Llyfr Gwyrdd o 3.5% y flwyddyn[2], ac amcangyfrifwyd costau gostyngedig o £29.1 miliwn ar sail gwerthoedd 2022.

2.3. Ers yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â Gorchymyn 20mya, mae asesiad a dadansoddiad mwy cywir o gostau arwyddion ar gyfer awdurdodau priffyrdd wedi cael ei gyfrifo. Mae hwn yn seiliedig ar wariant gwirioneddol gan awdurdodau priffyrdd yn 2022–23, yn ogystal â chostau amcangyfrifedig ar gyfer 2023–24. Mae'r costau cyfalaf a'r proffiliau gwariant bellach wedi cael eu haddasu i adlewyrchu hyn. Mae'r newidiadau i gostau ers yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn 20mya yn adlewyrchu'r canlynol:

2.3.1. Yr amcangyfrifon diwygiedig o gostau cyfalaf yw £21.9 miliwn ar sail prisiau 2022. Bydd y costau hyn yn cael eu hysgwyddo yn 2022, 2023 a 2024, ac rydym yn disgwyl i rywfaint o wariant a ddisgwylir iddo gael ei ysgwyddo yn 2022 bellach yn cael ei ysgwyddo yn 2023.

2.3.2. Gan addasu ar gyfer tuedd optimistiaeth o 22%, cyfanswm y costau hyn yw £26.7 miliwn.

2.3.3. Ac yn olaf, at ddibenion cymharu costau yn erbyn manteision, amcangyfrifwyd y byddai costau gostyngedig o £25.7 miliwn ar sail gwerthoedd 2022.

---

[1]Mae canllawiau'r Llyfr Gwyrdd yn argymell cynnwys yn glir y duedd i amcangyfrifon o gost fod yn rhy optimistaidd. Y lefel uchaf a argymhellir ar gyfer gwariant cyfalaf yw 44%, ac mae 22% yn cynrychioli hanner y lefel uchaf hon. Gweler: https://www.gov.uk/government/publications/green-book-supplementary-guidance-optimism-bias

[2] Gweler: https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-governent

2.4. Y gost uniongyrchol am arwyddion traffig a marciau ffordd (gan gynnwys tuedd optimistiaeth) yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn 20mya oedd 29.3 miliwn. Ar hyn y bryd y costau amcangyfrifedig diwygiedig (gan gynnwys tuedd optimistiaeth) yw £26.7 miliwn. Mae hyn yn gostyngiad o £2.5 miliwn o'u cymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol.

| Eitem | 2022 | 2023 | 2024 | Costau amcangyfrifedig (prisiau 2022, ac eithrio tuedd optimistiaeth) | Costau amcangyfrifedig (prisiau 2022, gan gynnwys tuedd optimistiaeth) | Costau amcangyfrifedig (gwerthoedd presennol, gan gynnwys tuedd optimistiaeth, gyda gostyngiad i brisiau 2022) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrifon o gostau arwyddion (Mehefin 2022) | £19.2 miliwn | £4.8 miliwn | - | £24.0 miliwn | £29.3 miliwn | £29.1 miliwn |
| Amcangyfrifon o gostau arwyddion (Mai/Mehefin 2023) | £1.4 miliwn | £15.9 miliwn | £4.6 miliwn | £21.9 miliwn | £26.7 miliwn | £25.7 miliwn |
| Crynodeb o'r newidiadau | | | | Gostyngiad o £2.1 miliwn | Gostyngiad o £2.5 miliwn | gostyngiad o £3.4 miliwn |

**Asesiad o'r Gystadleuaeth**

Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi cael ei gynnal ac ni ddisgwylir i Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Ffyrdd 2023 effeithio ar y lefelau o gystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd busnesau Cymru.